**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 23 Mawrth 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| N L Matthews | P M Matthews | W G Thomas |
| T M White | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Phil Homes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorwyr: Dim.

---

## 36 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 37 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Corfforedig yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

## 38 Cynllun Cyflawni Bae Abertawe

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo grynodeb o'r cynnydd a wnaed yn unol â Chynllun Gweithredu Strategaeth Bae Abertawe 2008–2023.

Mewn cydweithrediad â Fframwaith Strategol Canol y Ddinas (Roger Tym & Partners), Coridor Glannau Afon Tawe (Hyder Consulting) a Strategaeth Twristiaeth

Abertawe (Steven & Associates), yr uchelgais oedd ategu datblygiad SA1, ynghyd â gwelliannau ym Mharc Menter Morfa ac Abertawe.

Y nod oedd sicrhau gwelliannau o fewn ardaloedd canolog allweddol dros gyfnod o bymtheng mlynedd. Nod y strategaeth oedd cynnwys tair prif elfen, gan gynnwys:

- Gweledigaeth ar gyfer y Bae;
- cynllun gweithredu; a
- Chynllun Cyflenwi a Gweithredu.

Roedd Strategaeth Bae Abertawe yn canolbwyntio ar 8.5 cilomedr o lannau Bae Abertawe o Bier y Gorllewin yn y dwyrain i Bier y Mwmbwls yn y gorllewin.

Roedd pen dwyreiniol ardal yr astudiaeth yn cynnwys y tir o amgylch y Ganolfan Ddinesig a'r cysylltiad i fyny Ffordd y Gorllewin i'r orsaf fysus. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a'r LC ar ochr ogledd y Marina yn agos i'r Ganolfan Ddinesig. Nid oedd ardal yr astudiaeth yn cynnwys canol y ddinas, afon Tawe ac ardaloedd SA1 y ddinas, gan fod y rhain yn destun mentrau ar wahân.

Mae pen gorllewinol ardal yr astudiaeth yn cynnwys Ystumllwynarth, y Mwmbwls a Phier y Mwmbwls.

Manylodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo ar yr adnodd a ddyrannwyd gyda'r nod o ddal y cynnydd a wnaed hyd yma, nodi rhanddeiliaid a nodi cyfleoedd a risgiau newydd o fewn fframwaith polisi Cynllun Gweithredu presennol Strategaeth Bae Abertawe.

Rhagwelwyd y byddai'r ymagwedd gydweithredol yn cyfyngu ar ddyblygu, wrth hysbysu rhaglen ddichonadwy o waith i sicrhau cyflawni.

Ystyriwyd Y Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) (Atodiad B) a'r Strategaeth Twristiaeth hefyd.

Cydnabuwyd, er bod y CRhC yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, fod pwrpas Abertawe fel cyrchfan yn llai amlwg.

Yn ystod mis Rhagfyr 2020, comisiynodd awdurdodau lleol De-orllewin Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru, (SWREDP) (Atodiad C).

Roedd y cynllun yn amlinellu 'map llwybr' uchelgeisiol ar gyfer datblygu economi'r rhanbarth, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer ymyriad a chyfleu sut y dylai sefydliadau busnes, llywodraeth, addysg, gwirfoddol, menter gymunedol a chymdeithasol a phartneriaid eraill gydweithio i'w cyflwyno.

Roedd Atodiad Piblinell Prosiect Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Atodiad D) wedi'i ddrafftio i amlinellu blaenoriaethau sy'n cyd-fynd â'r tair cenhadaeth;

- Sefydlu De-orllewin Cymru fel arweinydd y DU mewn ynni adnewyddadwy ac economi sero net;
- Adeiladu sylfaen fusnes gref, gadarn ac wedi'i gwreiddio; a
- Datblygu a chynnal y cynnig 'profiad.

Cymeradwyodd y Cabinet (20 Ionawr 2022) Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru fel polisi adfywio economaidd hollgynhwysol y cyngor i ddisodli Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

Roedd rhanddeiliaid wedi'u nodi i gynnwys; noddi Aelod(au)
Cabinet, PDC yr Economi ac Isadeiledd ac arweinwyr y gwasanaethau Diwylliannol, Adfywio, Priffyrdd a Chludiant.

Bydd y rhanddeiliaid hyn yn dadansoddi cynigion y maent eisoes wedi'u nodi, a fydd yn cael eu grwpio mewn chwe chyrchfan - i alluogi rheoli ac adrodd yn haws.

Roedd y chwe chyrchfan wedi dod i fodolaeth drwy ffurfio clystyrau o werthfawrogi'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Strategaeth Bae Abertawe, ynghyd ag ymrwymiadau newydd i gynnwys Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Byddai hyn yn galluogi rhoi blaenoriaeth i gyrchfannau wedi'u targedu:

- Cyrchfan 1 Canol y Ddinas – Glannau'r Ddinas
- Cyrchfan 2 Sgeti – San Helen
- Cyrchfan 3 Blackpill – West Cross
- Cyrchfan 4 Y Mwmbwls - y Pier
- Cyrchfan 5 Y Baeau
- Cyrchfan 6 SA1
- Cyrchfannau amrywiol – Strategaeth Toiledau, Cenhadaeth 2 a 3 Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod adnoddau wedi'u dyrannu i gefnogi'r ymarfer cwmpasu. Rhagwelwyd y byddai grŵp(iau) tasg a gorffen yn cael ei(eu) sefydlu ar gyfer cynlluniau penodol. Byddai Bwrdd y Rhaglen Adfywio yn llywodraethu adrodd a monitro.

O ran cyfleoedd, roedd hanner cant o gynigion wedi'u nodi ar draws chwe chyrchfan. Roedd sawl cynnig wrthi'n cael eu datblygu fel blaenoriaethau cytunedig gyda chyllid cymeradwy gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Adferiad Economaidd, i gynnwys;

- Gwaith ar Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Arfordirol (Sgwâr Ystumllwynarth – Knab Rock)
- 'Changing Places' (Knab Rock)

Byddai Urban Splash hefyd yn cydweithio â Chyngor Abertawe fel rhan o gytundeb £750m.

Roedd Aelod(au) Cabinet a oedd yn noddi yn awyddus i chwilio am gyfleoedd buddsoddi o fewn Blackpill, wrth annog pethau y mae modd eu cyflwyno i ategu'r strategaeth ehangach ar gyfer hyrwyddo Abertawe fel cyrchfan.

Byddai angen i gynlluniau gael eu cysylltu â'r cenadaethau canlynol (sylwer: y mentrau a ddangosir yw'r rheini sy'n benodol i Abertawe'n ffurfio sawl un o'r hanner cant o gynigion piblinell sy'n gysylltiedig â Chynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol y De-orllewin);

1) Sefydlu De-orllewin Cymru fel arweinydd y DU mewn ynni adnewyddadwy ac Economi sero net.

***Ynys Ynni'r Ddraig Bae Abertawe (Eden Las yn awr)***
*Prosiect isadeiledd ynni adnewyddadwy mawr, defnyddio pŵer ail amrediad llanw uchaf yn y byd yn Abertawe.*

2) Adeiladu sylfaen fusnes gref, gadarn ac wedi'i gwreiddio

**Abertawe Ganolog, Gogledd Abertawe**
*Cyflwyno canolfan swyddfeydd fel cam nesaf rhaglen gynhwysfawr i adfywio canol dinas Abertawe (gan adeiladu ar gwblhau'r cam cyntaf ym Mae Copr).*

***Datblygu cyflenwyr lleol Abertawe***
*Cynyddu'r defnydd o gyflenwyr lleol*

3) Datblygu a chynnal y cynnig 'profiad'

***Trefi llai a Pharthau Arfordirol Abertawe***
*Buddsoddiad wedi'i dargedu i gefnogi'r cynnig hamdden, ymwelwyr a chanolau trefi mewn canolfannau llai yn sir Abertawe*

***Prosiect Dyfrffyrdd Rhanbarthol Abertawe, gyda chyfle i'w gymhwyso'n ehangach yn rhanbarthol***

*Mesurau i agor y dyfrffyrdd ar draws afon Tawe yn Abertawe, ychwanegu llwybrau newydd, ailgyfeirio llwybrau presennol a datblygu isadeiledd twristiaeth newydd a mynediad i'r amgylchedd hanesyddol.*

***Treftadaeth a chyrchfan Cwm Tawe Isaf Abertawe***
*Cyfres o fuddsoddiadau'n agor y cynnig treftadaeth yng ngwaith yr Hafod-Morfa, gwella mynediad ar hyd afon Tawe a gwella'r amgueddfa a'r asedau treftadaeth yng nghanol dinas Abertawe.*

Yn ogystal, byddai'n fuddiol datblygu cynllun rheoli sy'n ymgorffori trefn gofalu a glanhau, ynghyd â manyleb ar gyfer celfi stryd er mwyn hwyluso'r gwaith cynnal a chadw.

Nodwyd y byddai cynlluniau costau'n cael eu datblygu ar gyfer blaenoriaethau cytunedig ac a byddai angen sefydlu a chymeradwyo adnodd pwrpasol ar gyfer cynlluniau y cytunwyd arnynt.

Roedd y deuddeng mis diwethaf wedi tynnu sylw at effaith adnoddau technegol ac arbenigol cyfyngedig o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Roedd hyn wedi cyflwyno her i recriwtio arbenigedd mewnol, ynghyd â chost adnoddau a rhaglennu gwaith.

Yn ogystal, yn ystod y deuddeng mis diwethaf, effeithiwyd ar y sector gan chwyddiant oherwydd prinder deunyddiau a chostau cynyddol cludo ac ynni. Byddai hyn yn awgrymu'n glir fod angen arian wrth gefn o fewn unrhyw ddyraniad cyllideb. Mae hynny'n gadael y cyngor yn agored i risgiau chwyddiant ehangach gan mai unwaith yn unig y gellir gwario cronfeydd wrth gefn.

Roedd trafodaethau'r Aelodau'n canolbwyntio ar:

- Cyfleoedd sy'n codi o safleoedd y Bae a chynnwys Langland.
- Ynni Gwyrdd ac adolygiad o drydan dŵr ac unrhyw gwmnïau masnachol.
- Cynnwys Coridor yr Afon o ran glanweithio a glanhau.

Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo y gallai Gweithdy Pwyllgor fod yn briodol ar gyfer trafod rhai o'r materion masnachol sensitif mewn perthynas â rhai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo a Phennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, a oedd hefyd yn bresennol, am eu hadroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd:**

1) Y bydd y Cadeirydd yn cysylltu â Swyddogion ac Aelod(au) perthnasol y Cabinet i drefnu Gweithdy i drafod materion masnachol sensitif sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth.

## 39 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Datblygu Corfforedig Yr Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2022-2023.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:-

- 20 Ebrill 2023 –

  Fframwaith Strategaeth Datblygu Economaidd Drafft.
  Adroddiad diwedd blwyddyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.22 pm

**Cadeirydd**